



Cynllun Sesiwn - Cyfnod Allweddol 2

Enw'r hyfforddai:

Cyfeirnod Sesiwn

Targed(au) o ran SAC: **S2.2** Eu bod yn deall o ran yr hyn sy'n berthnasol i'r ystod oedran y maent wedi cael eu hyfforddi i'w addysgu, yng Nghymru, y dylai dysgwyr 7-14 oed gael cyfleoedd, lle bo hynny'n briodol, i ddatblygu a chymhwyso'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth o nodweddion diwylliannol, economaidd, amgylcheddol hanesyddol ac ieithyddol Cymru (y Cwricwlwm Cymreig).

Grŵp Blwyddyn: 6

Nifer y dysgwyr: 25

ADY (ALN): 1 disgbl ag anghenion arbennig.

Oedolion ychwanegol:

Dim

Nod(au) dysgu: **Creu pamffled yn hysbysebu 7 Rhyfeddod Cymru.**

Meini prawf llwyddiant: **Cyflwyno gwybodaeth am y 7 rhyfeddod; Defnyddio berfau gorchmynol yn denu twristiaid i Gymru; Braslunio llun o bob rhyfeddod; Gosod y gwaith yn daclus.**

Amser	Gweithgareddau, trefnu a rheoli'r sesiwn	Cwestiynau allweddol / Asesu ar gyfer dysgu
5 munud	Cyflwyniad Byddaf yn egluro bod y thema yn dod i ben yr wythnos yma. Yna bydd y plant yn edrych dros y gwaith a wnaethant hyd yn hyn ar ryfeddodau Cymru ac yn cymharu'u gwaith gyda disgyblion eraill. Yna wrth gyflwyno'r dasg byddaf yn arddangos ac yn darllen enghraifft o'r iaith a'r wybodaeth sydd angen.	Sut gallwch chi engahu ar neu ychwanegu at y wybodaeth rydych chi wedi casglu yn barod? Creu rhestr o ferfau gorchmynol. Modelu enghraifft gorffenedig.
55 munud	Prif weithgareddau Bydd gan bob disgybl templed i'w ddilyn yn strwythuro'r pamffled. Yn gyntaf byddant yn ysgrifennu drafft o'r bamffled ar ddarn o bapur sgrap. Byddaf yn darllen dros eu gwaith cyn iddynt ail-ddrafftio'r gwaith. *Gall ddisgyblion ddefnyddio gliniaduron i chwilio am wybodaeth neu luniau fel y mynent. Y gobaith fydd i arddangos enghreifftiau o'r gwaith ar wal y dosbarth.	Marcio drafftiau o waith wrth fynd ymlaen. Hunanasesu'r drafft gyntaf o waith. A fyddai'r paragraff yna yn llwyddo i ddenu pobl i'r wlad?
5 munud	Diwedd glo Byddaf yn ail-ddarllen yr enghraifft oedd gennym ar ddechrau'r wers. Yna bydd y plant yn darllen dros eu gwaith a chymrau	Hunanasesu/Asesu cyfoedion er mwyn nodi'r cam ymlaen.

	gyda'r enghraifft. Byddant yn nodi wrth drafod gyda phartner yr hyn sydd angen iddynt wneud er mwyn gwella. *Mae'n debygol ni fydd y plant yn cwblhau'r gwaith o fewn un sesiwn felly byddwn yn parhau gyda'r gwaith yn y wers nesaf.	Ydych chi'n llwyddo i ddenu twristiaid i Gymru?
--	--	---

Cysylltiadau â dysgu blaenorol: Mae'r plant eisoes wedi casglu gwybodaeth am ryfeddodau Cymru ac wedi'u labelu ar fap o Gymru.						
Ymdriniaeth o'r cwricwlwm (ystod, sgiliau): Cymraeg Sgil: Dewis a defnyddio geirfa briodol, a defnyddio iaith i greu effeithiau; Ystyried eu gwaith eu hunain a gwaith eraill; Drafftio a gwella eu gwaith gan ddefnyddio TGCh fel bo'r angen. Ystod: Ysgrifennu ar gyfer amrywiaeth o bwrpasau gan gynnwys cyflwyno gwybodaeth; Ysgrifennu ar gyfer amrywiaeth o gynulleidfaedd real a dychmygus.						
<i>Llythrennedd:</i> Addasu arddull ysgrifennu. Ystyried, golygu ac ailddrafftio i wella gwaith ysgrifennu. Defnyddio iaith sy'n briodol ar gyfer ysgrifennu, gan gynnwys Cymraeg safonol.	<i>Rhifedd:</i> Llunio tabl/siartiau. Dewis a defnyddio sgiliau mathemategol cywir ar gyfer tasgau gwahanol.	<i>TGCh</i> X	<i>Meddwl</i> X	<i>Cyfathrebu</i>	<i>ADCDF</i> Wrth esgus gweithio i fwrdd twrisitiaeth Cymru mae'r plant yn ystyried ffyrdd o annog pobl o dros y byd i Gymru.	<i>YCC</i> Mae'r disgyblion yn defnyddio gwybodaeth am ryfeddodau Cymru er mwyn denu pobl i'w weld.
<i>Geirfa Allweddol (Cymraeg/Saesneg):</i> Hysbysebu, twrisitiaid, pamffled, berfau gorchmynol.						

Mae nifer o'r plant yn cymryd rhan mewn cwrs beicio yn ystod yr wythnos yma, felly mae'n anodd i mi gynllunio ac addysgu cyflwyniad a diweddsglo'r wers gan fydd plant yn gweithio ar wahanol dasgau trwy gydol y dydd.